WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – **Dinas a Sir Abertawe**


Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1821A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Dinas a Sir Abertawe fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Jason Garcia, Justine Morgan a Colin Davies dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn dal i wynebu her ariannol sylweddol ac mae angen iddo gyflawni ei gynlluniau arbedion ar y cyflymder a'r raddfa sy'n ofynnol gan reoli gwariant gwasanaethau o fewn cyllidebau.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth i gefnogi cydnerthedd ariannol ond mae angen iddo sicrhau ei bod yn gynaliadwy dros y tymor canolig 7

Am y tair blynedd ddiwethaf nid yw'r Cyngor wedi gallu cynnal costau ei wasanaethau o fewn cyllidebau blynyddol 9

Nid oes gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio, sy'n ychwanegu at bwysau ariannol yn ystod y flwyddyn 10

Mae gan y Cyngor lefel resymol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, ond mae angen i ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn yn ddiweddar gael ei reoli i gefnogi cynaliadwyedd ariannol 11

Mae'r Cyngor wedi cyflawni lefelau da o ran cyfraddau casglu'r dreth gyngor ond mae balans yr ôl-ddyledion yn cynyddu 12

Bydd cost ariannu lefelau benthyca digymorth ychwanegol sylweddol yn ychwanegu rhagor o bwysau at sefyllfa'r gyllideb refeniw dros y tymor canolig a hwy 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Roedd y prosiect yn ceisio asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol cynghorau yn y tymor byr a chanolig.

2 Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu ‘dangosyddion’ ariannol o sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â’r canlynol:

- Perfformiad yn erbyn y gyllideb
- Cyflawni cynlluniau arbedion
- Defnyddio cronfeydd wrth gefn
- Y dreth gyngor
- Benthyca

Arddangosyn 1: ynglŷn â’r Cyngor

Mae’r arddangosyn hwn yn nodi peth gwybodaeth gefndir am gyllideb refeniw net y Cyngor, nifer y staff y mae’n eu cyflogi a gwerth ei asedau sefydlog



**Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn £443.3 miliwn**



**Mae’r Cyngor yn cyflogi tua 11,050 o bobl**




**Roedd asedau sefydlog y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £1,380 miliwn**

Ffynhonnell: Gwefan Dinas a Sir Abertawe a’i ddatganiadau ariannol 2018-19

3 Fe gynhaliom ni’r asesiad hwn am ein bod wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau diweddar rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a’r duedd gyffredinol bod adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn lleihau ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau.

Arddangosyn 2: ffynonellau refeniw'r Cyngor

Mae'r siart cylch isod yn dangos faint o arian y mae'r Cyngor yn disgwyl ei gael o wahanol ffynonellau ariannu yn ystod 2019-20




Ffynhonnell: Ffigyrau sy'n deillio o ffurflen hunanasesu'r Cyngor

4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2019 a mis Ionawr 2020.

## Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: mae'r Cyngor yn dal i wynebu her ariannol sylweddol ac mae angen iddo gyflawni ei gynlluniau arbedion ar y cyflymder a'r raddfa sy'n ofynnol gan reoli gwariant gwasanaethau o fewn cyllidebau, a chan felly gael gwared ar y ddibyniaeth ar fesurau cyllido canolog unigol i fantoli'r gyllideb gyffredinol yn llwyddiannus fel arall. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth i gefnogi cydnerthedd ariannol ond mae angen iddo sicrhau ei bod yn gynaliadwy dros y tymor canolig;
- am y tair blynedd ddiwethaf nid yw'r Cyngor wedi gallu cynnal costau ei wasanaethau o fewn cyllidebau blynyddol;
- nid oes gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio, sy'n ychwanegu at bwysau ariannol yn ystod y flwyddyn;

- mae gan y Cyngor lefel resymol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, ond mae angen i ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn yn ddiweddar gael ei reoli i gefnogi cynaliadwyedd ariannol;
- mae'r Cyngor wedi cyflawni lefelau da o ran cyfraddau casglu'r dreth gyngor ond mae balans yr ôl-ddyledion yn cynyddu, a
- bydd cost ariannu lefelau benthyca digymorth ychwanegol sylweddol yn ychwanegu rhagor o bwysau at sefyllfa'r gyllideb refeniw dros y tymor canolig a hwy.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn dal i wynebu her ariannol sylweddol ac mae angen iddo gyflawni ei gynlluniau arbedion ar y cyflymder a'r raddfa sy'n ofynnol gan reoli gwariant gwasanaethau o fewn cyllidebau

### Mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth i gefnogi cydnerthedd ariannol ond mae angen iddo sicrhau ei bod yn gynaliadwy dros y tymor canolig

#### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

6 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod y lefel debygol o gyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau o ran cyllid a fu'n ddiweddar ac a ragwelir ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig nodi sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn enwedig sut y bydd yn llenwi bylchau a ragwelir yn y cyllid.

#### Yr hyn a ganfuom

7 Canfuom fod y Cyngor wedi datblygu strategaeth i gefnogi cydnerthedd ariannol ond bod angen iddo sicrhau ei bod yn gynaliadwy dros y tymor canolig. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:


- mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn nodi bwlch o ran cyllid a ragamcanir dros y blynyddoedd nesaf, sy'n seiliedig ar dybiaethau rhesymol.
- mae'r Cyngor wedi adnabod diffyg ariannol o £44 miliwn hyd at 2023-24. Mae £9.7 miliwn o hwn yn ymwneud â 2020-21 ac mae angen ei unioni o arbedion ariannol. Mae'r diffyg ar gyfer y cyfnod 2021-22 i 2023-24 yn gyfanswm o £34.3 miliwn ac yn seiliedig ar dybiaeth y bydd cynnydd blynyddol yn y Cyllid gan Lywodraeth Cymru o 2% y flwyddyn. Bydd angen ariannu'r diffyg hwn o arbedion ariannol a chodiadau yn y Dreth Gyngor yn y dyfodol.
- am y tair blynedd ddiwethaf, nid yw'r Cyngor wedi gallu cynnal cost ei wasanaethau o fewn cyllidebau blynyddol ac o ganlyniad mae wedi defnyddio peth o'i gronfeydd wrth gefn i reoli'r gorwariannau hynny.
- ym mis Rhagfyr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynnydd o 4.2% yng ngrant cynnal refeniw'r Cyngor ar gyfer 2020-21. Mae adroddiad y Cabinet ym mis Ionawr 2020 ar gynigion y Gyllideb ar gyfer 2020-21 i 2023-24 yn

nodi bod y cynnydd hwn, i raddau helaeth, wedi cyfrannu at ostwng gofyniad arbedion cyffredinol y Cyngor ar gyfer 2020-21 i £9.7 miliwn.

- yn gyffredin â chynghorau eraill, mae rhai meysydd gwasanaeth wedi profi gostyngiad sylweddol mewn termau real yn eu cyllideb dros y blynyddoedd diwethaf. Mae capasiti'r meysydd gwasanaeth hyn i barhau i wneud arbedion o un flwyddyn i'r llall mewn termau real gan hefyd barhau i ddarparu gwasanaethau'n debygol o fod yn her fawr i'r Cyngor.
- nod rhaglen y cyngor 'Abertawe Gynaliadwy – Yn Addas i'r Dyfodol' yw trawsnewid y modd y darperir gwasanaethau i wella gwasanaethau a deilliannau ar gyfer dinasyddion ac i helpu i gyrraedd y targedau o ran arbedion ariannol a chreu incwm y mae eu hangen i gau'r bwlch o ran cyllid a ragamcannir.
- mae peth wmbredd o waith wedi bod yn mynd rhagddo gyda nifer uchel o adolygiadau gwasanaeth-benodol yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen hon wedi dangos eto y bydd yn cyflawni'r lefel o drawsnewid ar y cyflymder a'r raddfa y mae eu hangen i gyflawni'r lefel heriol o arbedion effeithlonrwydd sy'n angenrheidiol yn y tymor canolig. Mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal adolygiad mawr o'r rhaglen hon yn 2020 i asesu sut y dylid diwygio'r rhaglen i adlewyrchu heriau cyfredol.

Arddangosyn 4: bwlch o ran cyllid a ragamcannir

Mae'r graff canlynol yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer y cyfnod 2020-21 i 2023-24.




Ffynhonnell: Adroddiad Cabinet Dinas a Sir Abertawe ar gynigion y gyllideb 9 Ionawr 2020

## Am y tair blynedd ddiwethaf nid yw'r Cyngor wedi gallu cynnal costau ei wasanaethau o fewn cyllidebau blynyddol

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

8 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer. Mae Cyngor sy'n methu â rhagweld gwariant yn gywir a chynllunio'n gywir ar ei gyfer yn wynebu risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a allai beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

### Yr hyn a ganfuom

9 Canfuom fel a ganlyn: am y tair blynedd ddiwethaf nid yw'r Cyngor wedi gallu cynnal costau ei wasanaethau o fewn cyllidebau blynyddol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi gorwario ar lefel gwariant gwasanaethau yn erbyn ei gyllidebau refeniw ac i ryw raddau bu angen iddo ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu'r gorwariannau hyn.
- mae gan y Cyngor 4 cyfarwyddiaeth. Ers 2016-17, mae'r Cyfarwyddiaethau Adnoddau, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yn gyson wedi gorwario yn erbyn eu cyllidebau. Fodd bynnag, mae'r Gyfarwyddiaeth Tlodi ac Atal (sydd bellach yn rhan o'r Gwasanaethau Cymdeithasol) a'r Gyfarwyddiaeth Lle, fel rheol, wedi rheoli eu gwariant blynyddol o fewn cyllidebau.

### Arddangosyn 5: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant ar gyfer cyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y ddwy flynedd ddiwethaf a'r flwyddyn hyd yma yn ôl y sefyllfa ym mis Rhagfyr 2019.

| Blwyddyn | Y gyllideb refeniw net wreiddiol £m | Alldro gwirioneddol y gyllideb refeniw net £m | Swm y gwarged/ gorwariant ar y cyfan £m | Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | £418.8m | £419.3m | Gorwariant o £0.5m | Gorwariant o 0.12% |
| 2018-19 | £433.2m | £432.9m | Gwarged o £0.3m | Gwarged o 0.07% |
| 2019-20 | £443.3m | £443.3m | cyllideb fantoledig | amherthnasol |

Ffynhonnell: Adroddiadau Monitro Cyllideb Dinas a Sir Abertawe

- yn 2019-20, bu gwelliant o ran rheoli gwariant o fewn y gyllideb gyda phob maes gwasanaeth ac eithrio Addysg – Heblaw Am Ysgolion.
- er gwaethaf y perfformiad gwell hwn yn 2019-20, mae'r Cyngor yn dal i wynebu heriau sylweddol yn y dyfodol o ran sut y mae ei wasanaethau'n cynnal gwariant o fewn eu cyllidebau. Mae pwysau uwch o ran y galw am wasanaethau ym maes addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol ynghyd â'r angen i ddod o hyd i arbedion ychwanegol sylweddol ar draws yr holl wasanaethau'n ychwanegu at yr heriau hyn.

## Nid oes gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio, sy'n ychwanegu at bwysau ariannol yn ystod y flwyddyn

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

10 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a lle mae'n ofynnol i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Yr hyn a ganfuom

11 Canfuom fel a ganlyn: nid oes gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio, sy'n ychwanegu at bwysau ariannol yn ystod y flwyddyn. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- nid yw'r Cyngor wedi cyrraedd ei dargedau arbedion mewn unrhyw un o'r 5 mlynedd ddiwethaf. Yn ystod yr amser hwn mae cyfanswm o £83.3 miliwn o arbedion wedi cael eu hadnabod ond dim ond £62.7 miliwn a gyflawnwyd. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor wedi bod yn seiliedig ar y cyfan ar y dybiaeth y bydd y Cyngor yn cyflawni 80% o'i arbedion wedi'u cynllunio. Ar gyfartaledd dros y 5 mlynedd ddiwethaf mae'r Cyngor wedi cyflawni 75.2% o'i arbedion wedi'u cynllunio.
- mae'r Cyngor yn rhagfynegi ei fod yn annhebygol o gyrraedd ei darged arbedion ar gyfer 2019-20. Ar gyfer 2019-20 mae'r Cyngor yn rhagfynegi, o £12.6 miliwn o arbedion wedi'u cynllunio, na fydd £2.0 miliwn (15.9%) yn cael eu cyflawni.

Arddangosyn 6: arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2018-19 fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed trwy arbedion wedi'u cynllunio yn ystod 2018-19 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd.

| £16.5m | £10.3m | £6.2m | 62.4% |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr arbedion wedi'u cynllunio | Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd | Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd | Canran yr arbedion a gyflawnwyd |

Ffynhonnell: Hunanasesiad Cyngor Dinas a Sir Abertawe

## Mae gan y Cyngor lefel resymol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, ond mae angen i ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn yn ddiweddar gael ei reoli i gefnogi cynaliadwyedd ariannol

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

12 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig i ariannu mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau hefyd. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau eu cronfeydd wrth gefn yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

### Yr hyn a ganfuom

13 Canfuom fel a ganlyn: mae gan y Cyngor lefel resymol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, ond mae angen i ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn yn ddiweddar gael ei reoli i gefnogi cynaliadwyedd ariannol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:


- mae gan y Cyngor £68.4m o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy gan gynnwys Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol o £9.4 miliwn yn ôl y sefyllfa ar 31 Mawrth 2019.
- roedd cronfa wrth gefn gyffredinol y Cyngor yn £12.6 miliwn ar 31 Mawrth 2016. Rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2019 mae hon wedi gostwng i £9.4 miliwn oherwydd yr angen i ariannu gorwariannau heb eu cynllunio gan

wasanaethau. Fodd bynnag, y bwriad yw y bydd y gronfa wrth gefn hon yn aros ar y lefel hon am y tair blynedd nesaf.

- er bod y Cyngor wedi rhagfynegi lefelau cronfeydd wrth gefn hyd at 31 Mawrth 2021, nid yw wedi gallu darparu rhagfynegiadau ar gyfer y tymor hwy, er y bydd yn amcanu at gynnal balansau'r gronfa wrth gefn gyffredinol ar y lefel gyfredol. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn cynyddu i'r eithaf y budd y gall ei gael o'i gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy i gefnogi nodau'r prosiect "Abertawe Gynaliadwy" ar gyfer trawsnewid y modd y darperir gwasanaethau ac adnabod arbedion effeithlonrwydd pellach.

Arddangosyn 7: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol, 2018-19

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2018-19 o'i gymharu â'i gyllideb refeniw net ar gyfer yr un flwyddyn.



| £443.2m | £68.4m | 15.4% |
|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o'r Gyllideb Refeniw Net |

Ffynhonnell: Cyngor Dinas a Sir Abertawe

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni lefelau da o ran cyfraddau casglu'r dreth gyngor ond mae balans yr ôl-ddyledion yn cynyddu

### Pam fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn bwysig

14 Bydd methu â chasglu'r swm o dreth gyngor sy'n ddyledus i'r Cyngor yn arwain at lai o incwm. Gall hyn yn ei dro gynyddu'r pwysau ariannol ar y Cyngor a'i gwneud yn ofynnol iddo wneud arbedion ychwanegol. Er nad y dreth gyngor yw ffynhonnell ariannu fwyaf cynghorau yng Nghymru, mae'n dal i fod yn ffynhonnell incwm allweddol.

### Yr hyn a ganfuom

15 Canfuom fod y Cyngor wedi cyflawni lefelau da o ran cyfraddau casglu'r dreth gyngor ond bod balans yr ôl-ddyledion yn cynyddu. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi parhau i gyflawni lefelau gweddol uchel o ran casglu'r dreth gyngor er gwaethaf codiadau diweddar yn lefelau'r dreth gyngor.
- mae gan y Cyngor hanes da o gasglu'r dreth gyngor ac ar gyfer 2017-18 a 2018-19, er bod y gyfradd gasglu ar gyfer 2018-19 (97.0%) ychydig yn is nag ar gyfer 2017-18 (97.3%).
- mae'r dreth gyngor wedi cynyddu fel canran o incwm refeniw'r Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf ac mae disgwyl iddi fod yn 16% o'r incwm yn 2019-20.
- ym mis Hydref 2019 fe benderfynodd y Cyngor weithredu premiwm Treth Gyngor o 100% o gyfradd safonol y Dreth Gyngor ar anheddau sy'n wag yn yr hirdymor ac ail gartrefi. Erbyn 2021-22 bydd hwn yn rhoi incwm blynyddol ychwanegol o £3 miliwn i'r Cyngor.
- o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2018, roedd cyfanswm ôl-ddyledion y Dreth Gyngor yn £7.1m. Roedd hyn wedi cynyddu i £7.8 miliwn erbyn 31 Mawrth 2019.

Arddangosyn 8: cyfraddau casglu'r dreth gyngor

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos y ganran o'r dreth gyngor a oedd yn ddyledus a gasglwyd gan y Cyngor yn ystod 2018-19



Roedd yr arian a gasglwyd o'r Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2019 yn 97% o'i gymharu â debyd casgladwy o £137.0m

Ffynhonnell: Stats Cymru

## Bydd cost ariannu lefelau benthyca digymorth ychwanegol sylweddol yn ychwanegu rhagor o bwysau at sefyllfa'r gyllideb refeniw dros y tymor canolig a hwy

### Pam ei bod yn bwysig cynnal lefelau benthyca cynaliadwy

16 Gall benthyca fod yn ffynhonnell cyllid werthfawr, er enghraifft i ariannu prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr megis ysgolion neu ganolfannau hamdden newydd. Fodd bynnag, gall cost ad-dalu arian a fenthyciwyd gan gynnwys costau llog gael effaith hirdymor ar gyllidebau refeniw parhaus. Mae cynghorau sy'n methu â tharo cydbwysedd priodol rhwng manteision a chostau benthyca ar y naill law a'u cyllidebau refeniw cyfredol a rhagamcanol ar y llaw arall yn wynebu risg o leihau

swm y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Mae benthyca i ariannu gweithgarwch masnachol yn cynnig y potensial i greu incwm ychwanegol i ariannu gwasanaethau'r cyngor; fodd bynnag, gall hefyd ddwyn risgiau sylweddol a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch masnachol.

## Yr hyn a ganfuom

17 Canfuom y bydd cost ariannu lefelau benthyca digymorth ychwanegol sylweddol yn ychwanegu rhagor o bwysau at sefyllfa'r gyllideb refeniw dros y tymor canolig a hwy. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor yn cynnal rhaglen buddsoddi cyfalaf sy'n golygu y bydd yn ofynnol cymryd benthyciadau digymorth ychwanegol sylweddol yn y ddwy flynedd nesaf.
- ers 2015-16 mae lefel fenthyca'r Cyngor wedi codi o £410.8 miliwn i £561.2 miliwn o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2019. Defnyddiwyd yr arian hwn a fenthyciwyd i gefnogi'r rhaglen gyfalaf uchelgeisiol sy'n mynd rhagddi yn y Cyngor. Cymerwyd rhai o'r benthyciadau hyn cyn bod eu hangen oherwydd cyfraddau llog buddiol ac mae hyn yn golygu bod lefel y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2019 wedi cynyddu i £121.9 miliwn.
- mae'r rhaglen gyfalaf gyfredol yn amcanu at wario £360 miliwn yn ychwanegol ar gyfer y cyfnod hyd at 2024-25. Mae hyn yn cynnwys £172.6 miliwn ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a £135 miliwn ar gyfer prosiect Cam 1 Canol Abertawe. I ariannu'r rhaglen hon bwriedir cymryd £104.5 million yn ychwanegol o fenthyciadau digymorth.
- mae'r Cyngor yn rhagfynegi ar hyn o bryd y bydd cyfanswm yr arian y bydd wedi'i fenthyca ar 31 Mawrth 2023 yn £614 miliwn (90%) o'i gymharu â therfyn awdurdodedig uchaf o £681.9 miliwn. Ar gyfer 2019-20 mae'r Cyngor yn rhagfynegi y bydd cyfanswm ei gostau llog cyfalaf yn £31.9 miliwn. Mae hyn wedi cynyddu 13.5% o £28.1 miliwn yn 2017-18 ac yn 2019-20 bydd yn cyfateb i 7.25% o wariant refeniw net. Bydd yr arian ychwanegol y bwriedir ei fenthyca'n cynyddu'r ganran hon ymhellach yn y tymor canolig a bydd hyn yn ychwanegu pwysau ychwanegol at gyflawni cyllidebau'r Cyngor.
- mae gan y Cyngor fenthyciadau heb eu had-dalu sy'n gyfanswm o £7.3 miliwn o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2020 i ariannu buddsoddiadau masnachol ac mae disgwyl i'r buddsoddiadau hyn greu incwm o £5.3 miliwn yn 2019-20 sy'n cyfateb i 1.2% o'r gyllideb gwariant refeniw net.
- ym mis Rhagfyr 2018 fe newidiodd y Cyngor ei bolisi mewn perthynas â'r ddarpariaeth isafswm refeniw gan newid o ddull balans gostyngol o 4% i sail linol o 2.5% ar gyfer benthyca digymorth. Mantais hyn yw y bydd yn creu tua £2.7 miliwn o arbedion refeniw yn flynyddol ar gyfer y cyfnod 2019-20 i 2022-23. Bydd arbedion blynyddol yn dal i gael eu gwireddu tan flwyddyn ariannol 2028-29 ac wedi hynny bydd taliadau uwch yn cael eu gweld hyd at 2056-57.

Arddangosyn 9: arian a fenthyciwyd gan y Cyngor

Mae'r arddangosyn isod yn dangos cyfanswm yr arian y mae'r Cyngor wedi'i fenthyca i ariannu buddsoddiadau masnachol, yn ogystal â chost yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor fel cyfran o'i gyllideb refeniw net.

**£7.3m**

Swm y benthyciadau i ariannu buddsoddiadau masnachol

**5.85%**

Cost cyfanswm y benthyciadau fel cyfran o'r gyllideb refeniw net 2018-19

Ffynhonnell: Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru